



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Galwad agored i ddarparwyr lletyau hunan-arlwyo 'Neges'

Galwad agored yw hwn i wahodd asiantau a busnesau lletyau hunan-arlwyo i ymgeisio i fod yn un o ddarparwyr 'Neges'.

Bydd y prosiect 'Neges' - "cynnyrch lleol i'ch croesawu" - yn hwyluso ac yn cydlynu darpariaeth bwyd lleol ar gyfer y sector hunan-arlwyo e.e. bythynnod, unedau glampio, cabanau...

Bydd y cynllun a gynhelir gan Menter Môn ac â ariennir drwy'r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (UE / Llywodraeth Cymru), yn rhedeg tan fis Mehefin 2023 gyda mwyafrif o'r weithgaredd yn digwydd yn ystod tymor twristiaeth 2022.

Nod

Nod y prosiect yw rhoi opsiwn bwyd a diod lleol i ymwelwyr sy'n aros mewn llety hunanarlwyo yn yr ardal, a fydd yn arddangos y llu o gynhyrchwyr o ansawdd sydd i'w cael yn yr ardal a rhoi ymdeimlad o le drwy ystod o ddeunydd ategol. Caiff 'Neges' ei gynnal mewn partneriaeth â chyflenwyr bwyd a diod, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Caiff y prosiect ei gynnal ar draws siroedd Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy.

Cyflenwyr 'Neges'

Bydd 'Neges' yn cydweithredu ac yn cefnogi 5 o gyflenwyr lleol i ddatblygu a threialu nifer o becynnau bwyd a diod rhanbarthol arloesol ar gyfer y sector twristiaeth yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy, pecynnau sydd naill ai'n cael eu danfon i letyau neu'n cael eu casglu, o wyliau Pasg 2022 ymlaen.

Disgwyliwn i adwerthwyr, dosbarthwyr, gweithgynhyrchwyr, bwytai a chlwstwr o gynhyrchwyr ymgeisio i fod yn gyflenwyr i 'Neges'. Caiff y 5 cyflenwr eu penodi erbyn diwedd 2021.

Hoffem dreialu gwahanol syniadau ar draws y 3 sir, gan dargedu amrywiol gynulleidfaedd a threialu dulliau dosbarthu gwahanol.

Rydym yn awyddus i o leiaf 2 o'r 5 cyflenwr a ddewisir fod â thrwydded i werthu alcohol.

Beth mae 'Neges' yn chwilio amdano gan ddarparwyr lletyau hunan-arlwyo?

Rydyn ni'n chwilio am nifer o asiantau a busnesau lletyau hunan-arlwyo i gydweithio â 'Neges' i ddatblygu a threialu nifer o becynnau bwyd a diod rhanbarthol ar gyfer y sector twristiaeth yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gall darparwr ‘Neges’, er enghraifft, fod yn berchennog eiddo hunan-arlwyo, yn fusnes glampio, yn barc cabanau neu’n asiant sy’n gyfrifol am farchnata a chymryd archebion ar gyfer lletyau o’r fath.

Rydym yn awyddus i dreialu gwahanol syniadau ar draws y gwahanol sectorau lletyau hunan-arlwyo yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy, gan dargedu amrywiol gynulleidfaedd a threalu dulliau dosbarthu amgen.

Bydd ‘Darparwr Neges’ yn gallu dewis pa ‘Gyflenwr Neges’ y mae’n prynu ganddo, ac fe gaiff gydweithio â mwy nag un.

Beth all ‘Neges’ ei gynnig ichi?

Nod cyffredinol prosiect ‘Neges’ yw lleihau’r risg i fusnesau sydd eisiau treialu pecynnau bwyd a diod lleol arloesol i westeion sy’n aros mewn lletyau hunan-arlwyo.

Bydd y prosiect yn darparu amrywiol fesurau cymorth. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Recriwtio 5 o ‘Gyflenwyr Neges’ i weithio â darparwyr lletyau hunan-arlwyo lleol i ddarparu pecynnau bwyd a diod arloesol i westeion sy’n aros yn yr ardal.
- Hwyluso cydweithrediad â busnesau eraill ar draws y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys cynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd a diod a fydd yn cyfuno ac yn paratoi’r pecynnau.
- Cyfrannu at y gost o redeg treialon, prynu deunydd pecynnu gwyrdd a chynhyrchu deunydd ategol ar gyfer pecynnau megis cardiau ryseitiau a chynnwys ar wefannau.
- Comisiynu cefnogaeth arbenigol lle bo angen i ddatblygu pecynnau bwyd ee datblygu ryseitiau, cywreinio neu egluro syniadau, dewis deunydd pecynnu gwyrdd amgen, meddalwedd ar gyfer anfon a phrosesu archebion...
- Lledaenu’r canlyniadau a’r canfyddiadau o amrywiol dreialon ‘Neges’ er mwyn ein galluogi i ddysgu gwersi ar draws y diwydiant bwyd a diod a’r sector twristiaeth.
- Rhannu gwybodaeth o’r farchnad am dueddiadau a disgwyliadau defnyddwyr.
- Rhoi cefnogaeth a gwybodaeth am sut i ddefnyddio’r Gymraeg yn effeithiol a datblygu “ymdeimlad o le” cryf fel rhan o’r profiad o aros yn yr ardal.
- Ennyn cyhoeddusurwydd i’r cwmnïau sy’n cyfranogi fel ‘Darparwyr Neges.’
- Comisiynu gwasanaethau ffotograffiaeth proffesiynol i greu portffolio o ddelweddau y gall Cyflenwyr a Darparwyr ‘Neges’ eu defnyddio i farchnata.

Beth yw’r cam nesaf?

Os ydych chi’n ateb “ydym” i bob un o’r canlynol, cysylltwch â ni drwy’r manylion cysylltu ar y diwedd.

Rydyn ni’n chwilio am DDARPARWYR:

- Sydd â lletyau hunan-arlwyo yng Ngwynedd, Ynys Môn neu Gonwy.
- Sy’n gallu cynnig syniadau arloesol ar sut i ddatblygu arlwy bwyd a diod lleol cynaliadwy, ymarferol a phroffidiol i westeion sy’n aros mewn lletyau hunan-arlwyo.
- Sy’n gallu gweithio gyda ‘Neges’ i gynnig gwerth i’r gwaith treialu megis rhannu gwybodaeth am y pecynnau bwyd a diod gyda chronfa ddata wedi’i thargedu,



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



hwyluso gwerthiant pecynnau i westeion neu roi gwybodaeth am anghenion a gofynion gwesteion. Gall darparwr ychwanegu gwerth mewn sawl ffordd, a hoffem glywed eich syniadau chi.

- A fydd yn gweithio gyda 'Neges' i arddangos y Gymraeg, bwyd lleol a'i dreftadaeth, drwy'r pecynnau bwyd a diod a gynigir gan 'Gyflenwyr Neges'.
- A fydd yn barod i roi sylwadau ac adborth i dîm y prosiect a'r gwerthuswyr a benodir.

Sut i Ymgeisio?

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cyfranogi fel un o gyflenwyr pecynnau 'Neges', a fydech gystal â llenwi'r ffurflen gais isod erbyn Tachwedd 30ain, 2021.

Ffurflen Gais: <https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=847zNnlo-E2m0Dz5KX8G-JTFpBoC4dhPkDGYyeGywwlUMk9TR1BROTA0R0szOTY4N0UyWlBHSzJKNi4u>

Manylion cysylltu 'Neges'

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Rhys Gwilym ar 01766 514057 neu ei e-bostio ar rhys@mentermon.com